**Atodiad 1b. Hunanweinyddu meddyginiaethau – taflen wybodaeth i rieni neu ofalwyr**

**Beth yw SAM?**
Ystyr SAM yw hunanweinyddu meddyginiaethau (*self-administration of medicines*) ac mae'n cyfeirio at gynllun sy'n cefnogi'r rhiant neu'r gofalwr i reoli meddyginiaethau'r claf tra ei fod yn yr ysbyty pan fo'n ddiogel ac yn briodol i wneud hynny.

**Pan fydd claf yn cymryd ei feddyginiaethau ei hun tra ei fod yn yr ysbyty, beth mae hyn ei olygu i mi fel rhiant neu ofalwr?**
Gall hunanweinyddu meddyginiaethau olygu bod rhiant neu ofalwr y claf yn gyfrifol am sicrhau bod y claf wedi cymryd ei feddyginiaethau fel y'u rhagnodir tra ei fod yn yr ysbyty.

Gallai hyn gynnwys rhai neu ei holl feddyginiaethau. Mae hyn yn caniatáu i'r claf barhau i gymryd ei feddyginiaethau ei hun, yr ydych chi fel rhiant neu ofalwr yn gyfarwydd â nhw. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i chi ymgyfarwyddo ag unrhyw feddyginiaethau newydd a ragnodwyd, a nodi a datrys unrhyw broblemau. Mae hefyd yn bosibl i weithiwr gofal iechyd proffesiynol eich cynorthwyo fel rhiant neu ofalwr. Mae hyn yn golygu y byddwch yn fwy hyderus i helpu'r claf i gymryd ei feddyginiaethau eto pan fydd yn cael ei ryddhau.

**A fyddwn ni'n defnyddio meddyginiaethau'r claf ei hun?**
Defnyddir meddyginiaethau'r claf ei hun, os ydynt yn addas. Fel rhiant neu ofalwr, byddwch yn dod â meddyginiaethau'r claf gyda chi o adref fel y gall y claf barhau i'w cymryd tra ei fod yn yr ysbyty. Os bydd angen mwy o feddyginiaethau ar y claf neu os oes ganddo feddyginiaethau gwahanol wedi'u rhagnodi, byddant yn cael eu rhoi i chi gan fferyllfa'r ysbyty a byddant yn cynnwys enw'r claf, enw'r feddyginiaeth a chyfarwyddiadau ar sut i'w rhoi. Os oes angen, efallai y cewch gymorth fel cerdyn gwybodaeth am feddyginiaethau a fydd yn dweud wrthych enw'r feddyginiaeth/meddyginiaethau a'r dosau y byddwch yn eu rhoi i'r claf.

**Sut fydda i'n storio meddyginiaethau'r claf?**
Dylid storio'r meddyginiaethau yn y cwpwrdd meddyginiaethau y gellir ei gloi wrth ochr y gwely bob amser. Byddwch yn cael cod neu allwedd ar

gyfer y cwpwrdd meddyginiaethau y gellir ei gloi wrth ochr y gwely. Os yw'r tîm gofal iechyd yn helpu'r claf i gymryd ei feddyginiaethau, byddant yn gwybod y cod, neu bydd ganddynt yr allwedd, a byddant yn datgloi'r cwpwrdd meddyginiaethau i chi.

**A yw'r cynllun hwn yn orfodol?**
Nid yw'r cynllun hwn yn orfodol, felly nid oes rhaid i chi gymryd rhan. Os nad ydych chi eisiau cymryd rhan, bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn rhoi'r meddyginiaethau i'r claf.

**Sut fydda i'n gwybod a fydda i'n rhoi meddyginiaethau i'r claf fy hun?**
Os ydych chi'n dymuno rhoi meddyginiaethau i'r claf eich hun, yna bydd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn cynnal asesiad byr i sicrhau ei bod hi'n addas i chi roi'r holl feddyginiaethau neu rai ohonynt.

**Pa gefnogaeth fydda i'n ei derbyn fel rhiant neu ofalwr?**
Bydd y tîm sy'n gofalu amdanoch chi ar gael i siarad am feddyginiaethau'r claf ac i'ch helpu i weinyddu'r meddyginiaethau.

Efallai y bydd adegau pan nad yw hunanweinyddu meddyginiaethau yn bosibl. Os bydd hyn yn digwydd, bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn rhoi'r meddyginiaethau nes bod y rhiant neu'r gofalwr yn gallu eu rhoi eto.

**Beth sy'n digwydd pan fydd y claf yn barod i gael ei ryddhau o'r ysbyty?**
Cyn i'r claf fynd adref, bydd ei feddyginiaethau'n cael eu gwirio gyda chi. Mae hyn er mwyn sicrhau mai nhw yw'r meddyginiaethau iawn ar gyfer y claf, gyda'r cyfarwyddiadau cywir ar gyfer eu defnyddio. Gall tîm y fferyllfa hefyd gysylltu dros y ffôn neu ymweld â'r claf gartref ar ôl iddo gael ei ryddhau, os oes angen. Byddan nhw'n sicrhau eich bod chi'n rheoli eu meddyginiaethau'n dda ac yn darparu cefnogaeth pan fo angen.

**Gwybodaeth i sicrhau bod meddyginiaethau'r claf yn cael eu cymryd yn ddiogel**

- Gall meddyginiaethau fod yn beryglus os na chânt eu defnyddio'n iawn.

- Eich cyfrifoldeb chi yw cadw'r meddyginiaethau a'r allwedd neu'r cod clo digidol mewn lle diogel. Os byddwch chi'n colli'r allwedd, rhowch wybod i aelod o'r tîm gofal iechyd ar unwaith.
- Os bydd ymwelydd neu glaf arall yn ceisio cymryd meddyginiaethau'r claf, rhowch wybod i aelod o'r tîm gofal iechyd ar unwaith.
- Peidiwch byth â rhannu meddyginiaethau ag unrhyw un arall.
- Darllenwch y daflen wybodaeth i gleifion, sydd wedi'i chynnwys gyda'r feddyginiaeth, cyn rhoi meddyginiaethau i'r claf.
- Os byddwch chi'n anghofio rhoi'r feddyginiaeth i'r claf, dywedwch wrth aelod o'r tîm gofal iechyd.
- Os bydd y claf yn cael unrhyw sgil-effeithiau, siaradwch â'r tîm gofal iechyd. Gan gynnwys sgil-effeithiau nad ydynt wedi'u crybwyll yn y daflen wybodaeth i gleifion.
- Peidiwch â rhoi mwy na'r dos a ragnodwyd.
- Bydd angen i'r tîm gofal iechyd wirio meddyginiaethau'r claf cyn iddo fynd adref i sicrhau eu bod yn dal yn briodol i'r claf.
- Dychwelwch allwedd y claf i'r tîm gofal iechyd cyn i chi fynd adref.
- Ceisiwch gyngor meddygol os bydd adwaith niweidiol.
- Gall unrhyw un roi gwybod am broblem gyda meddyginiaeth, brechlyn, dyfais feddygol (gan gynnwys meddalwedd, apiau a deallusrwydd artiffisial), cynnyrch gwaed neu e-sigarét i'r cynllun Cerdyn Melyn. Gallwch gael mynediad at y ffurflen adrodd yma: Gwefan adrodd y Cerdyn Melyn.

**Cadwch bob meddyginiaeth y tu hwnt i gyrraedd plant.**